# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2015

Amser: 09.06 - 11.03

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3285

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC<br>Keith Davies AC (yn lle Sandy Mewies AC) |
| Tystion: | Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Joanna Jordan, Llywodraeth Cymru<br>Martin Sollis, Llywodraeth Cymru<br>Janet Davies, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Dave Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru) |

TRAWSGRIFIAD

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies. Dirprwyodd Keith Davies ar ei rhan.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr gan Simon Dean, Prif Weithredwr Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (16 Tachwedd 2015)**

**2.2 Cyllid Iechyd 2013-14: Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr y GIG, Llywodraeth Cymru (16 Tachwedd 2015)**

## 3 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru

3.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru; Joanna Jordan, Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu, Llywodraeth Cymru; Martin Sollis, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru; a Janet Davies, Cynghorydd Arbennig - Ansawdd a Diogelwch, Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i ymchwiliad i lywodraethu byrddau iechyd.

3.2 Cytunodd Dr Goodall i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am:

- Y broses benodi ar gyfer aelodau annibynnol o'r byrddau iechyd
- Y llwybrau a pherthnasau sydd gan Fwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr yn eu lle ar gyfer gwasanaethau arennol o ran y model both ac adenydd.

- Rhagamcan o sefyllfa ariannol pob bwrdd iechyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2015-16

3.3 Yn ystod Eitem 5, wrth drafod y dystiolaeth a gafwyd, gofynnodd yr Aelodau am gael gwybod beth yw statws uwchgyfeirio pob bwrdd iechyd.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.